

# Gwobrau ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu 2022

Canllawiau ar gyfer  
sefydliadau a thimau  
enwebedig

---

## Cynnwys

1.	Dyddiad cau ac amserlen asesu	3
2.	Cyflwyniad	4
2.1	Newydd ar gyfer 2022	4
3.	Canllawiau ar gyfer enwebu	5
3.1	Cymhwystra	5
3.2	Dogfennau enwebu	6
3.3	Gofynion fformatio	7
3.4	Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth	8
3.5	Cyflwyno a derbyn enwebiadau	8
4.	Meini prawf dyfarnu	9
5.	Datblygu'r Cais	9
5.1	Y Tîm Craidd	9
5.2	Adran A – Rhan 1: Cyfansoddiad y Tîm Craidd	11
5.3	Adran A – Rhan 2: Datganiad Cyd-destun	11
5.4	Adran B: Cais yn erbyn dau faen prawf dyfarnu GCRhA	13
5.5	Adran C: Rhestr Cyfeiriadau	16
6.	Datganiad o Gefnogaeth	17
7.	Y broses adolygu a dewis	17
8.	Digwyddiadau cymorth Cymdeithas y Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol a'r Rhwydwaith Gwobrau ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu	18
9.	Canlyniadau a chyhoeddusrwydd	19
10.	Y seremoni wobrwyo a'r digwyddiad briffio	20
	Atodiad 1: Gofynion enwebu ar gyfer timau ac Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu	21
	Atodiad 2: Ffurflen Cais GCRhA 2022	22
	Atodiad 3: Datganiad o Gefnogaeth	24
	Atodiad 4: Penawdau Sgorio GCRhA 2022	25
	Atodiad 5: Datganiad Preifatrwydd GCRhA 2022	26

---

## 1. Dyddiad cau ac amserlen asesu

Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau a'r broses asesu fel a ganlyn:

Dyddiad	Carreg Filtir
Dydd Llun 4 Hydref 2021	<b>Galwad am enwebiadau yn agor</b> Caiff holl ffurflenni a chanllawiau GCRhA eu rhyddhau ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Gall Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu gofrestru i gael mynediad i Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen o'r dyddiad hwn.
Dydd Mercher 16 Mawrth 2022	<b>Enwebiadau yn cau</b> Dylai'r holl gopiâu electronig o'r dogfennau enwebu gael eu lanlwytho i'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir, a dylai'r Ffurflen Proffil Enwebeion gael ei chwblhau erbyn <b>12:00 (GMT)</b> . Bydd mynediad i'r cwrs enwebu GCRhA ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn cau i Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y pryd hynny.
Wythnos yn dechrau dydd Llun 11 Gorffennaf 2022	<b>Canlyniadau unigol yn cael eu rhyddhau</b> Caiff Arweinwyr Tîm Enwebedig ac Is-ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu'r cyfwerth) y sefydliad sy'n enwebu wybod canlyniad eu henwebiad. Sylwch, gwaherddir cyhoeddi'r wybodaeth hon tan y cyhoeddiad swyddogol ar ddydd lau 4 Awst 2022.
Dydd Iau 4 Awst 2022	<b>Rhyddhau'r cyhoeddiad swyddogol</b> AU Ymlaen yn rhyddhau cyhoeddiad swyddogol timau buddugol GCRhA 2022.
Hydref 2022	<b>Seremoni Wobrwyo</b> Caiff y Seremoni Wobrwyo ei chynnal yn hydref 2022 (dyddiad i'w gadarnhau).

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau manwl ar gyfer y broses enwebu a pharatoi a chyflwyno dogfennau enwebu ar gyfer gwobrau GCRhA 2022.

## 2. Cyflwyniad

Diben Gwobrau ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu (GCRhA) yw cydnabod a dathlu'r cydweithio sydd wedi cael effaith glir ar addysgu a dysgu. Wedi ei gyflwyno yn 2016, mae'r cynllun yn tynnu sylw at y rôl allweddol y mae gwaith tîm yn ei chwarae mewn addysg uwch. Bydd pob gwobr yn cydnabod tîm, sydd wedi galluogi newid mewn ymarfer i gydweithwyr a/neu fyfyrwyr ar lefel sefydliadol, neu ddisgyblaeth.

Mae'r cynllun GCRhA yn cael ei drefnu a'i redeg gan AU Ymlaen. Er mwyn cymryd rhan yn y cynllun GCRhA, rhaid i sefydliadau fod yn aelodau Llawn neu Ymgysylltiol o AU Ymlaen y DU; mae cymryd rhan yn y cynllun yn un o fuddion aelodaeth, h.y. ni chodir unrhyw ffi ychwanegol ar gyfer cymryd rhan.

Mae sefydliadau yn gymwys i gyflwyno **un tîm GCRhA enwebedig** trwy **'enwebiad'**.

Caiff hyd at 15 o dimau eu dewis i dderbyn y wobr yn 2022. Caiff timau enwebedig wybod y canlyniad yr wythnos yn dechrau ddydd Llun 11 Gorffennaf 2022. Caiff y rhai a ddewisir eu gwahodd i fynychu cinio dathlu yn hydref 2022 lle y caiff eu Gwobr ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu ei chyflwyno iddynt. Mae manylion pellach am y cynllun GCRhA ar gael yn <https://www.advance-he.ac.uk/awards/teaching-excellence-awards/collaborative-award-for-teaching-excellence>

Bydd AU Ymlaen yn gweithio gyda'r timau i helpu i arddangos eu gwaith a hyrwyddo effaith y timau a/neu'r cynllun ymhellach. Bydd AU Ymlaen yn datblygu eu proffil cenedlaethol ymhellach trwy eu gwahodd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau AU Ymlaen. Ar ôl ennill gwobr, bydd rôl gan bob aelod o'r tîm GCRhA fel llysgennad ar gyfer y cynllun a chefnogi gwelliant parhaus ym maes dysgu ac addysgu.

Mae Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn chwarae rôl ganolog yn y broses. Mae'r Panel yn cynghori ar y meini prawf, y broses asesu a chymedroli, a dewis yr enillwyr. Mae'r Panel yn annibynnol ar AU Ymlaen ac yn cynnwys uwch gynrychiolwyr HEP o genhedloedd y DU a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

### 2.1 Newydd ar gyfer 2022

**Tîm craidd yn unig i'w enwebu:** Yn rowndiau blaenorol y gwobrau nid oedd unrhyw derfyn ar faint y tîm GCRhA, ond mae hyn wedi newid ar gyfer gwobrau 2022. O gynllun gwobrau 2022 ymlaen, **Tîm Craidd**, sy'n cynnwys nifer cyfyngedig o aelodau, ddylai gael ei enwebu ar gyfer GCRhA. Mae'r newid hwn wedi cael ei gyflwyno o ganlyniad i adborth gan adolygwyr o GCRhA 2021. Sylwodd adolygwyr GCRhA yn y rhan fwyaf o achosion o enwebiadau gan dîm fawr iawn, nid oeddent yn gallu nodi'n eglur y dystiolaeth yr oedd ei hangen er mwyn arddangos yn gryf ymagwedd y tîm yn erbyn Maen Prawf 1. Gofynnodd Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU (gweler uchod) o 2022 ymlaen y dylai tîm craidd wedi'i gyfyngu i aelodau allweddol gael ei enwebu ar gyfer GCRhA a bod y rôl sydd gan bob aelod o'r tîm craidd yn cael ei chynnwys fel rhan o'r Cais. Trwy ymgynghori ag enillwyr blaenorol GCRhA trwy'r gymuned Rhwydwaith GCRhA, mae AU Ymlaen yn diffinio tîm craidd fel un sydd fel rheol yn cynnwys rhwng 3 a 15 o aelodau allweddol, ac o 2022 ymlaen bydd trosolwg syml o 'pwy yw pwy' yn y Tîm Craidd enwebedig yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Cais. Gweler Adranau 5.1 a 5.2 isod i gael arweiniad pellach ar gyfansoddiad y Tîm Craidd.

- Yn unol â'r pwynt uchod, mae AU Ymlaen wedi cyflwyno cydran newydd i Adran A Ffurflen Cais GCRhA 2022: Adran A, Rhan 1: Cyfansoddiad y Tîm Craidd. Mae'r adran hon yn rhoi lle penodol i dimau enwebedig nodi aelodau o'u tîm craidd wrth eu henwau a rhestru eu swydd (gweler Adran 5.2).
- Mae'r Datganiad Cyd-destun (Adran A, Rhan 2 bellach) yn parhau heb ei newid. Nid yw'r Cyfansoddiad Tîm Craidd newydd na'r Datganiad Cyd-destun yn cael eu sgorio gan yr adolygwyr.
- Mae AU Ymlaen wedi dileu'r gofyniad i arweinwyr tîm a dirprwy arweinwyr tîm gael cymrodoriaeth o AU Ymlaen i hyrwyddo cynnwys ystod eang o unigolion. Bydd data ar statws y gymrodoriaeth yn parhau i gael eu dal at ddibenion adrodd.
- Mae'r canllawiau wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r defnydd o'r term **Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu** sydd wedi cymryd lle'r term Cyswllt Sefydliadol er mwyn osgoi drysu gyda chysylltiadau allweddol eraill AU Ymlaen mewn sefydliadau. Mae Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu yn cael llawlyfr i Arweinwyr (newydd ar gyfer 2022) i helpu gyda'u rôl a defnyddio Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen, pan gaiff enwebiadau eu cyflwyno.
- Mae nifer o fân newidiadau wedi cael eu gwneud i'r geiriad trwy'r cyhoeddiad.

## 3. Canllawiau ar gyfer enwebu

### 3.1 Cymhwystra

Mae'r cynllun GCRhA yn agored i bob Darparwr Addysg Uwch sy'n aelod o AU Ymlaen ar draws pedair cenedl y DU, gan gynnwys Colegau Addysg Bellach a darparwyr 'amgen' annibynnol. Gwahoddir pob Darparwr Addysg Uwch y DU i **enwebu un tîm** a all ddangos yn eglur eu bod yn cael effaith ar addysgu a dysgu trwy gydweithio.

Mae AU Ymlaen yn disgwyl i sefydliadau sicrhau nad yw eu prosesau ar gyfer dewis tîm i'w enwebu yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'u bod yn gynhwysol o ran yr amrywiaeth o ffyrdd y mae staff a myfyrwyr yn cyfrannu at ddysgu ac addysgu, gan ystyried amrywiaeth llawn eu staff a'u corff myfyrwyr. Gall yr unigolion hynny o fewn y tîm fod mewn unrhyw rôl sy'n cyfrannu at hyrwyddo addysgu a dysgu. Mae cydweithwyr sy'n gweithio ar gampws dramor tra eu bod o dan contract gyda Darparwyr Addysg Uwch yn y DU yn gymwys i fod yn rhan o'r tîm. Anogir aelodau o'r tîm sy'n fyfyrwyr i wneud cais, a gallant fod yn astudio neu fod â rôl gynrychioliadol. Gall fod aelodau allanol o'r tîm hefyd, sy'n gweithio o fewn diwydiant neu sefydliad partner er enghraifft.

Dylai pob tîm ddangos ei fod wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â myfyrwyr addysg uwch. Er nad oes unrhyw ofyniad i fyfyrwyr fod yn aelodau o'r tîm, dylai tîm ddangos yn eglur sut y mae myfyrwyr yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'i waith.

**Caiff sefydliadau eu hannog i ystyried sut y gall y broses ddewis fewnol gael ei defnyddio i greu proffil cadarnhaol ar gyfer y tîm enwebedig** a sut y byddant fel sefydliad yn parhau i hyrwyddo gwaith y tîm os nad ydynt yn llwyddiannus ym mhroses ddewis GCRhA, gan ei bod yn hynod gystadleuol.

Ni all yr arweinydd tîm fod â chais gweithredol wedi ei gyflwyno ar gyfer CCAC yr un pryd â chais ar gyfer GCRhA.

Dylai'r Cais fod yn waith y tîm enwebedig yn unig ac mae AU Ymlaen yn cadw'r hawl i brosesu dogfennau trwy feddalwedd atal llên-ladrata.

Anogwn golegau a darparwyr AU amgen i enwebu timau ar gyfer GCRhA, oherwydd ni chafodd y mathau hyn o ddarparwyr AU eu cynrychioli'n ddigonol yn rowndiau blaenorol y gwobrau.

Wrth ddewis y tîm i'w enwebu, anogwn sefydliadau i ystyried eu hegwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan fod dadansoddiad o ddata monitro cyfle cyfartal rowndiau blaenorol GCRhA yn nodi bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig, staff nad ydynt yn staff academaidd, staff anabl, staff rhan-amser a staff gwryw heb gael eu cynrychioli'n ddigonol mewn timau enwebedig GCRhA.

### 3.2 Dogfennau enwebu

Mae **enwebiadau** yn cynnwys y dogfennau a'r ffurflenni a restrir isod. Dylai cyflwyno'r enwebiad llawn gael ei gydlynw gan yr Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu; mae rhestr wirio wedi ei chynnwys er mwyn i'r Arweinydd GCRhA gadarnhau bod yr holl ddogfennau wedi cael eu cyflwyno ar gyfer y tîm enwebedig.

Dylai dogfennau gael eu lanlwytho i [Amgylchedd Dysgu Rhithwir](#) AU Ymlaen a dylai ffurflenni ac arolygon gael eu cwblhau ar-lein trwy [Arolygon Ar-lein](#) AU Ymlaen.

#### Mae dogfennau enwebu yn cynnwys y canlynol:

- **Rhestr Wirio Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu:** ffurflen i'w lawrlwytho o Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen, wedi ei chwblhau a'i lanlwytho gan yr Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu i gadarnhau bod yr holl ddogfennau enwebu wedi cael eu cyflwyno a'u gwirio gan yr Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu; gweler Atodiad 1 – fersiwn Cymraeg ar gael ar wefan AU Ymlaen o ganol Hydref 2022.
- **Cais:** datganiad wedi ei gwblhau gan y tîm enwebedig trwy ddefnyddio'r pro fforma lawrlwythiadwy yn disgrifio ei effaith ragorol yn erbyn y meini prawf dyfarnu (**uchafswm o 3500 o eiriau**) a hefyd cofnod o Gyfansoddiad y Tîm Craidd, Datganiad Cyd-destun cyffredinol (hyd at 300 o eiriau) a Rhestr Cyfeiriadau ar gyfer dyfyniadau a ddefnyddir o fewn y Cais (heb eu cynnwys yn nifer y geiriau); gweler Atodiad 2 – fersiwn Cymraeg ar gael ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir.
- **Datganiad o Gefnogaeth wedi ei lofnodi:** datganiad yn darparu cymeradwyaeth i gefnogi'r Cais ac wedi ei lofnodi gan Is-ganghellor y sefydliad (neu'r cyfwerth), gan ddefnyddio'r pro fforma lawrlwythiadwy (**uchafswm o 1000 o eiriau**); gweler Atodiad 3 – fersiwn Cymraeg ar gael ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir;
- **Ffurflen Broffil Enwebeion:** ffurflen ar-lein i'w chwblhau gan arweinydd tîm y tîm enwebedig ac ar gael [yma](#). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y tîm ac yn gofyn am broffil cryno 50 o eiriau a phroffil hwy 350 o eiriau. Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd ar gyfer timau buddugol GCRhA.

Dylai proffiliau gael eu hysgrifennu yn y trydydd person (defnyddiwch 'nhw' neu'r 'tîm'). Mae enghreifftiau o broffiliau blaenorol i'w gweld [yma](#) i'w cyfeirio atynt;

- **Ffotograffau:** tri ffotograff gwahanol eglur iawn o'r tîm; 1Mb a 300dpi (o leiaf) mewn fformat JPEG (gellir gwneud hyn ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar a chamêrâu). Dylai pob ffotograff fod mewn fformat tirlun. Mae cyflwyno ffotograffau yn dangos bod Darparwr Addysg Uwch wedi ceisio cytundeb y tîm enwebedig er mwyn i AU Ymlaen allu defnyddio'r delweddau hyn. Cysylltwch â ni ychydig cyn y dyddiad cau 16 Mawrth os na all eich tîm enwebedig ddarparu'r delweddau hyn oherwydd cyfyngiadau parhaus COVID-19.
- **Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal:** arolwg ar-lein wedi ei chwblhau gan bob aelod o'r tîm ac ar gael [yma](#). Caiff y data yma eu defnyddio'n ddiennw i adrodd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

### 3.3 Gofynion fformatio

Dylai'r confensiynau canlynol gael eu dilyn wrth gyflwyno'r Cais. Mae hyn yn sicrhau tegwch a chysondeb yn y broses adolygu ar draws pob tîm enwebedig.

- **Nifer y geiriau:** pan fydd terfyn wedi ei osod ar gyfer nifer y geiriau, dylai pob pennawd adran, testun o fewn tablau neu ddiagramau, ôl-nodiadau a nodau rhifiadol gael eu cynnwys wrth gyfrif nifer y geiriau. Ceir uchafswm nifer y geiriau yn Adrannau A, Rhan 2 a B o'r Cais; ni fydd adolygwyr yn ystyried unrhyw eiriau sy'n fwy na therfyn nifer y geiriau.
- **Ffont:** Arial 12 pwynt.
- **Diagramau:** wedi eu caniatáu. Dylai unrhyw destun sy'n ymddangos o fewn y diagram gael ei ychwanegu at nifer y geiriau terfynol.
- **Penawdau a throedynnau:** dylai penawdau gael eu defnyddio ar gyfer enw'r tîm a'r sefydliad sy'n enwebu a throedynnau ar gyfer rhifau'r tudalennau.
- **Cyfeiriadau:** gellir eu cynnwys yng nghorff y testun neu eu rhoi fel ôl-nodiadau (yn hytrach na throedynnau). Caiff dyfyniadau a ddefnyddir o fewn y testun eu cynnwys yn nifer y geiriau terfynol.
- **Hyperddolenni, lluniau a logos:** ni chânt eu hystyried yn y broses adolygu ac felly dylid eu hosgoi.
- **Cadw ffeiliau:** Dylai'r confensiwn enwi canlynol gael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl ffeiliau a gyflwynir:  
<Institution\_(Team Leader) Initial.surname\_DocumentName>;  
e.e. UniofPoppleton\_J.Smith\_Claim

**Mae AU Ymlaen a Phanel Cyngori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw enwebiadau sydd heb ddilyn y gofynion hyn. Felly cyfrifoldeb y sefydliad sy'n enwebu a'r arweinydd tîm yw sicrhau bod yr enwebiad yn bodloni'r gofynion o ran fformatio, llofnodion gofynnol a nifer y geiriau.**



### 3.4 Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth

Caiff yr holl ddata personol a ddarperir trwy gyflwyno enwebiad tîm ar gyfer cynllun GCRhA eu cadw'n gyfrinachol gan AU Ymlaen a chaiff dogfennau perthnasol yn unig eu rhannu â'r adolygwyr a Phanel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU fel yr esbonnir o fewn y ddogfen ganllaw.

Mae AU Ymlaen wedi ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn casglu data yn ymwneud ag aelodau tîm ar gyfer monitro ystadegol trwy'r **Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal**. Nid yw'r wybodaeth a ddarperir ar yr Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal yn ffurfio rhan o'r Cais ac nid yw ar gael i'r adolygwyr ond fe'i defnyddir yn ddiennw gan AU Ymlaen ar gyfer monitro ystadegol.

Mae'r Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal ar gael ar-lein yn Arolygon Ar-lein ac ar gael [yma](#). **Dylai pob aelod o'r tîm gwblhau arolwg.**

Mae cyfrinachedd y data a gyflwynir yn cael ei gynnal gan AU Ymlaen. Mae AU Ymlaen yn casglu'r wybodaeth a ddarperir gan bob aelod o'r timau enwebedig ac yn defnyddio'r data a gesglir yn ddiennw i adrodd yn flynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i Banel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU.

Os hoffai unrhyw un wybod rhagor am y modd y mae AU Ymlaen yn casglu, storio a defnyddio gwybodaeth bersonol am dimau enwebedig GCRhA, cyfeiriwch at ein datganiad preifatrwydd (Atodiad 5).

### 3.5 Cyflwyno a derbyn enwebiadau

Rhaid i ddogfennau enwebu gael eu cyflwyno gan gyswllt canolog a enwir (neu ei ddirprwy dynodedig) yn y sefydliad (yr Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu) trwy system ar-lein a letyir ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Caiff Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu enw defnyddiwr a chyfrinair sefydliadol i fewngofnodi ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir er mwyn iddynt allu lanlwytho'r enwebiad(au). Rhoddir cyfarwyddiadau llawn yn llawlyfr Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu 2022.

**Rhaid i'r holl ddogfennau enwebu gael eu lanlwytho erbyn 12:00 (GMT) ar ddydd Mercher 16 Mawrth 2022.** Mae'r Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu yn gweithredu ar ran ei sefydliad a bydd AU Ymlaen yn cymryd ei fod yn gweithredu yn unol â disgwyliadau ei uwch reolwyr wrth gyflwyno enwebiad ei sefydliad.

Dylid cyflwyno cais yn Gymraeg neu yn Saesneg; rhaid i'r rhai sy'n cyflwyno cais yn Gymraeg gynnwys fersiwn Saesneg o bob dogfen hefyd at ddibenion adolygu.

Caiff enwebiadau a lanlwythwyd a dderbyniwyd eu cydnabod trwy ebost awtomataidd wedi'i anfon at yr Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu. Bydd yr ebost hwn yn rhoi hyder bod y cais wedi cael ei wneud, ond ni fydd yn cadarnhau bod yr holl ddogfennaeth ofynnol yn bresennol. Ar ôl cyflwyno cais, bydd AU Ymlaen yn gwirio bod yr holl ddogfennau wedi cael eu derbyn a bod modd cael mynediad atynt.

Bydd AU Ymlaen yn cadarnhau bod yr holl ddogfennau gofynnol wedi cael eu derbyn mewn ebost a anfonir at yr Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu o'r blwch post [cate@advance-he.ac.uk](mailto:cate@advance-he.ac.uk) erbyn 12:00 (BST) ar ddydd Mercher 23 Mawrth 2022. Os nad yw'r Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu wedi cael y cadarnhad hwn gan AU Ymlaen erbyn hynny cynghorwn ei fod yn cysylltu ag AU Ymlaen i holi a yw wedi cael ei



dderbyn, naill ai drwy'r ebost yn [cate@advance-he.ac.uk](mailto:cate@advance-he.ac.uk) cyn y dyddiad cau terfynol sef 12:00 (BST) ar ddydd Gwener 25 Mawrth 2022.

## 4. Meini prawf dyfarnu

Caiff pob tîm ei asesu ar sail y dystiolaeth a ddarperir yn y ddogfen enwebu mewn perthynas â phob un o **ddau faen prawf dyfarnu GCRhA**.

### **Maen Prawf 1 GCRhA: Rhagoriaeth yn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm**

Tystiolaeth o ragoriaeth yn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig.

### **Maen Prawf 2 GCRhA: Rhagoriaeth yn effaith gweithio ar y cyd**

Tystiolaeth bod y tîm yn cael effaith bendant ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol arferol.

Bydd adolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o **gyrhaeddiad**, **gwerth** ac **effaith** sydd i'w gweld yn y dystiolaeth o fewn y naratif a gyflwynir yn Adran B o'r Cais. Sylwch, mae pob un o'r ddau faen prawf dyfarnu uchod yn cael ystyriaeth gyfartal yn y broses asesu a phwysiad cyfartal yn y sgôr gyffredinol.

## 5. Datblygu'r Cais

Mae tair adran i'r 'Cais' (A-C):

### ➤ **Adran A:**

- **Rhan 1** – Cyfansoddiad y Tîm Craidd (heb eu cynnwys yn nifer y geiriau);
- **Rhan 2** – Datganiad Cyd-destun (uchafswm o 300 o eiriau);

### ➤ **Adran B:** Cais yn erbyn Meini Prawf Dyfarnu GCRhA (uchafswm o 3500 o eiriau);

### ➤ **Adran C:** Rhestr Cyfeiriadau

Dim ond Adran B, sy'n cynnwys dystiolaeth yn erbyn pob un o ddau faen prawf dyfarnu GCRhA sy'n cael ei sgorio gan yr adolygwyr; nid yw'r Datganiad Cyd-destun a'r Rhestr Cyfeiriadau yn cael eu sgorio.

### 5.1 Y Tîm Craidd

Wrth ddiffinio'r Tîm Craidd sydd i'w enwebu ar gyfer GCRhA, gallai fod yn ddefnyddiol i ystyried tîm 'craidd' fel y rhai sydd wedi sefydlu/cychwyn gwaith grŵp ehangach o bosib. Gall fod yn 'dîm estynedig' mwy o faint a fydd yn ymgysylltu â gwaith y tîm craidd a bydd yn rhan o esblygiad gwaith y tîm craidd. Yn aml ceir llif rhwng y ddau grŵp hyn wrth i'r gwaith ddatblygu, a bydd aelodau'r grŵp estynedig yn dylanwadu ar waith parhaus y tîm craidd. Gall aelodau'r tîm craidd ddod o ddisgyblaethau/timau proffesiynol/myfyrwyr/grwpiau allanol ac ati, a phob cam gyrfa, h.y. heb fod yn gysylltiedig â swydd uwch neu statws rolau swyddi aelodau. Disgwylir i'r timau craidd fod yn wahanol iawn, gan adlewyrchu amrywiaeth y gwaith o fewn addysg uwch yn y DU a chyd-destun unigryw pob tîm; nid oes unrhyw ddisgwyliad hefyd y bydd grŵp/tîm estynedig yn gysylltiedig â gwaith y tîm craidd. Ceir sawl ffordd wahanol o ddangos dystiolaeth ar gyfer y ddau faen prawf dyfarnu, fel y bo'n briodol yn

ôl natur gwaith y tîm enwebedig, a bydd adolygwyr yn cymhwyso'r meini prawf hyn yn eu troi i'r Cais unigryw sy'n cael ei wneud gan bob tîm enwebedig.

Wrth arddangos dyfnder y cydweithredu rhwng aelodau'r tîm i ddarparu tystiolaeth gryf yn erbyn Maen Prawf Dyfarnu 1 GCRhA, cynghorir timau i ganolbwyntio dyfnder y cydweithredu ar y rhyngweithio rhwng aelodau'r tîm craidd er mwyn mynegi'n llawn egwyddorion allweddol cydweithredu fel y'u nodir yn y diagram gan Spencer (gweler td.15 isod). Mae gwaith y grŵp estynedig yn debygol o ffurfio rhan o'r dystiolaeth ar draws y Cais, i arddangos Cyrhaeddiad, Gwerth ac Effaith.

I esbonio ymhellach yr hyn a olygir wrth tîm craidd a grŵp/tîm estynedig (ond nid gosod disgwyliad y bydd tîm enwebedig yn cydymffurfio â'r model hwn), mae'r diagram isod yn rhoi esiampl bosibl o'r rhyngweithio rhwng y tîm craidd a grŵp estynedig, gan nodi rhai nodweddion posibl pob un ohonynt:



### Y tîm craidd

Grŵp penodol o 3-15 o aelodau fel arfer.

Wedi sefydlu'r tîm ac â chyfrifoldeb am ei ganlyniadau.

Wedi'i nodweddu gan fewnbwn creadigol, cydweithredu dwfn, datblygu cysyniadau, syniadau a bod â chyfrifoldeb am benderfyniadau allweddol.

**Gallai** rolau ac arbenigedd penodol o fewn y tîm craidd **gynnwys er enghraifft** (ond bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar waith y tîm): Arweinydd Tîm, Dirprwy Arweinydd Tîm, Cynrychiolydd sy'n Fyfyriwr, a Phartner Allanol.

### Grŵp estynedig

Unigolion sy'n gweithio ar draws sefydliad (a/neu'n allanol) sy'n gweithredu'r ymyraethau/gweithgareddau sy'n tarddu o'r tîm craidd.

Gall cyfranogiad gael ei nodweddu fel cynghrair dros dro neu ymgysylltiad cynyddol.

Mae'n bosibl i aelodau'r tîm craidd a'r grŵp estynedig gydweithio'n agos i gyflawni er mwyn i syniadau lifo'r ddwy ffordd gan arwain at esblygiad parhaus gwaith y tîm.

Cysylltwch â ni yn [CATE@advance-he.ac.uk](mailto:CATE@advance-he.ac.uk) os oes unrhyw ymholiadau gennych neu os oes angen arweiniad pellach arnoch ar adnabod aelodau craidd eich tîm.

## 5.2 Adran A – Rhan 1: Cyfansoddiad y Tîm Craidd

Mae'r adran newydd hon o Ffurflen Gais GCRhA 2022 yn rhoi lle penodol i dimau enwebedig restru aelodau eu tîm craidd. Ni chaiff Cyfansoddiad y Tîm Craidd ei sgorio gan adolygwyr, ond bydd yn eu helpu i ddehongli cyd-destun y tîm.

Yn yr adran hon, dylai timau GCRhA ddarparu rhestr o enwau aelodau eu tîm craidd, a swydd pob un ohonynt.

Gan fod yr adran hon yn ofniad newydd ar gyfer GCRhA 2022, mae enghraifft o dîm craidd damcaniaethol wedi'i ddarparu yn y darn o Ffurflen Gais GCRhA wedi'i chwblhau (Atodiad 2) isod (mae'r holl enwau a theitlau yn rhai ffug). Ni fwriedir i hyn fod yn rhagnodol mewn unrhyw ffordd, dim ond i ddangos y defnydd arfaethedig o Gyfansoddiad y Tîm Craidd yn Adran A, Rhan 1:

<b>Enw'r arweinydd tîm:</b>	Yelda Adem Dirprwy Bennaeth Sefydliad Iechyd Cyhoeddus ym Mhrifysgol Poppleton
<b>Enw'r dirprwy arweinydd tîm:</b>	Yr Athro Mukasa Apio Ymchwilydd Addysgol wedi'i leoli yn y Sefydliad Iechyd Cyhoeddus
<b>Enw'r tîm:</b>	XXXXX
<b>Sefydliad:</b>	Prifysgol Poppleton
<b>Adran A – Rhan 1: Cyfansoddiad y Tîm Craidd (heb ei sgorio gan yr adolygwyr)</b>	
<b>Ychwanegwch ragor o resi yn ôl yr angen (tîm craidd yn 3-15 o aelodau fel rheol)</b>	
<b>Enw</b>	<b>Swydd</b>
Rosalba De León	Partner sy'n Fyfyriwr (Deintyddiaeth 3ydd Blwyddyn)
Yr Athro Tomas Grey	Arweinydd Rhaglen Deintyddiaeth
Dr Shane Hardman	Partner GIG Allanol (Ysbyty Poppleton)
Ellis Shah	Cadeirydd y Grŵp Cleifion Cymunedol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddiaeth Lleol
Rory Simmons	Llyfngellydd Pwnc ar gyfer Iechyd (wedi'i leoli yn y Ganolfan Ddysgu)
Siobhan Wood	Dylunydd Dysgu Digidol (Gwasanaethau Addysgol Canolog)

## 5.3 Adran A – Rhan 2: Datganiad Cyd-destun

Mae AU Ymlaen a Phanel Cyngori Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn cydnabod y caiff rhagoriaeth mewn addysgu a chymorth dysgu ei leoli o fewn cyd-destunau academaidd, proffesiynol a sefydliadol penodol. Caiff natur y cyd-destun sefydliadol a chyfle pob tîm enwebedig i gyfrannu ei ystyried.

Bydd cryn dipyn o amrywiaeth rhwng timau enwebedig, gan adlewyrchu'r gwahaniaeth yng nghyfansoddiad, cyd-destun a gwaith y tîm. Mae'r Datganiad Cyd-destun (300 o eiriau) ar ddechrau Cais y tîm, yn dilyn Cyfansoddiad y Tîm Craidd, ac ni chaiff ei sgorio gan yr adolygwyr. Dylai'r adran hon gael ei defnyddio i nodi cyd-destun, lleoliad, maes a/neu faes gwaith y tîm.

Mae'r Datganiad Cyd-destun yn darparu ffrâm cyfeirio ar gyfer Adran B y Cais ac yn cynnig modd i adolygwyr lywio eu hunain i roi'r dystiolaeth yn erbyn pob un o ddau faen prawf dyfarnu GCRhA. Dylai timau ddefnyddio'r Datganiad Cyd-destun i esbonio cyd-destun eu tîm a'r lleoliad sefydliadol. Os yw'r naratif yn Adran B y Cais yn defnyddio tystiolaeth o waith ar draws sefydliadau gwahanol/yn y sector ehangach a/neu ddiwydiant/cyrff sector, dylid esbonio hyn hefyd yn y Datganiad Cyd-destun. Dylai timau egluro natur eu hymarfer addysgu a dysgu (e.e. mathau o ddysgwyr, disgyblaeth(au)/maes(meysydd) arbenigol, amlinelliad byr o gwmpas a graddfa'r ymarfer a wneir gan y tîm).

Ni ddylid defnyddio'r Datganiad Cyd-destun i ddarparu gwybodaeth a fyddai'n ychwanegu tystiolaeth o effaith at y naratif a amlinellir yn Adran B y Cais. Mae rhai enghreifftiau **o'r hyn na ddylid ei gynnwys** yn y Datganiad Cyd-destun (ond i'w gynnwys yn Adran B yn lle hynny) fel a ganlyn:

- + Datblygiad y tîm fel tîm a'i ymagwedd at weithio ar y cyd (i'w ddefnyddio yn y dystiolaeth ar gyfer Maen Prawf 1);
- + Cyfraniad y tîm at flaenoriaethau thematig/sector ehangach (ei gysylltu â Maen Prawf 1);
- + Gwaith ar y cyd â chyrff allanol (ei gysylltu â Maen Prawf 1);
- + Lledaenu mentrau ac effaith ar draws meysydd/campysau/timau eraill (gellid ei gysylltu â Maen Prawf 1 neu 2);
- + Gwaith sy'n effeithio ar gyrff proffesiynol neu gymunedau ehangach (e.e. gellid ei ddefnyddio o bosibl yn y dystiolaeth ar gyfer Maen Prawf 2).

Caiff cynnwys a strwythur y Datganiad Cyd-destun ei bennu gan y tîm enwebedig er mwyn dangos yn y modd gorau posibl y rhannau perthnasol o'i gyd-destun sy'n lleoli'n effeithiol y dystiolaeth sydd i ddod yn y cais. Dylai timau osgoi cyflwyno Datganiadau Cyd-destun sy'n cynnwys llawer o fanylion am hanes ac enw da ei sefydliad.

Mae'r tabl isod yn cynnwys darnau dienw o Ddatganiadau Cyd-destun o Geisiadau GCRhA a fu'n llwyddiannus yn y blynyddoedd blaenorol, gan roi enghraifft o'r math o wybodaeth sy'n arbennig o ddefnyddiol i'r adolygwyr:

<p>Mae 'Myfyrwyr ar y Cyd' yn dîm gwasanaethau proffesiynol bach a arweiniodd y gwaith o gynllunio, cyflenwi a pharhau â datblygiad parhaus y Plattform Myfyrwyr. Y Plattform yw'r adnodd dadansoddeg ddysgu cyntaf i'w weithredu mewn prifysgol fawr yn y DU sy'n hygyrch i staff a myfyrwyr. Mae ein tîm o bedwar yn gweithio ar y cyd â'r defnyddwyr (staff a myfyrwyr), gyda gwasanaethau proffesiynol, arbenigwyr data a TG y brifysgol a'r gwerthwr allanol i sicrhau bod y Plattform yn ddull gwerthfawr o gyflwyno newid. Rydym yn gyfrifol am ddatblygu'r weledigaeth sefydliadol, rheoli prosiect a chynnal datblygiad cynnyrch ac ymchwil academaidd er mwyn sicrhau bod dadansoddeg ddysgu wedi ei chorffori'n foeseogol ac yn effeithiol ar draws Prifysgol Damien.</p>
<p>Mae'r tîm wedi cydnabod yr angen i ehangu mynediad i hyfforddiant trwy ddefnyddio technoleg ond hefyd cyfle i gynnal safon uchel a bod yn berthnasol er mwyn ei ddefnyddio ar lefel leol trwy gydweithio ar draws ystod eang o arbenigwyr ac ymarferwyr ar lefel fyd-eang. Mae liferi ar rwydweithio THDR a'r alumni wedi datblygu dros y blynyddoedd ar draws lefelau unigol a sefydliadol.</p> <p>Roedd integreiddio addysg agored yn y cynllun addysgu a dysgu yn seiliedig ar gorffori senarios dilys, gan estyn ei ddiben trwy gydweithredu er mwyn galluogi rhyng-ddysgu a thraws-ddysgu proffesiynol gyda'r posibilrwydd o adeiladu capasiti ar lefel leol ar gyfer addysgwyr a phartneriaid allanol.</p>
<p>Mae'r prosiect wedi rhedeg ers 2014/15. Fe'i sefydlwyd ac fe'i gweithredir gan grŵp amrywiol a datblygol o wirfoddolwyr sy'n dod o lawer o wahanol rolau a chefnidroedd. Dan arweiniad yr Adran Gwella Dysgu ac</p>

Addysgu, mae SFF wedi ei gefnogi gan staff a myfyrwyr o'r holl Ysgolion, ac erbyn hyn yn ategu arsylwadau gan gyfoedion mwy traddodiadol ar draws y Brifysgol, ac wedi ei gynnwys yn strategaeth y Brifysgol. Mae wedi newid ymarfer o fewn a'r tu hwnt i Brifysgol Heworth ac wedi ennill gwobr ymgysylltu â myfyrwyr gan Bartneriaethau Myfyrwyr mewn Ansawdd y DU (SPQUK).

## 5.4 Adran B: Cais yn erbyn dau faen prawf dyfarnu GCRhA

Dylai timau enwebedig ddefnyddio Adran B o'r Cais i amlinellu'r dystiolaeth ar gyfer **cyrhaeddiad, gwerth ac effaith** ymarfer eu tîm yn erbyn dau faen prawf dyfarnu GCRhA yn eu tro. At ei gilydd ni all Adran B fod yn fwy na 3,500 o eiriau.

Ceir sawl ffordd wahanol o gyflwyno tystiolaeth ar gyfer pob un o'r meini prawf dyfarnu, fel y bo'n briodol yn ôl natur gwaith y tîm. Rhoddir rhai enghreifftiau isod, ond ni ddylai timau enwebedig deimlo eu bod wedi eu cyfyngu gan yr enghreifftiau hyn oherwydd maent wedi eu cynnwys i ddarparu mathau dangosol o dystiolaeth yn unig yn erbyn pob maen prawf.

### Pwyntiau allweddol:

- + dylai timau ddefnyddio Adran B o'r Cais i ddarparu a rhoi sylw i dystiolaeth yn erbyn pob maen prawf dyfarnu yn ei dro;
- + dylai timau ddangos eu bod yn arddel egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu hymarfer;
- + bydd rhaid i dimau ddefnyddio tystiolaeth benodol o effaith i gefnogi eu cais yn erbyn pob maen prawf;
- + **gallai** rhai enghreifftiau o ffynonellau posibl o dystiolaeth **gynnwys rhai o'r canlynol** (ond heb eu cyfyngu iddynt) fel y nodir yn y tabl isod, yn dibynnu ar gyd-destun y tîm enwebedig:

Maen Prawf 1 Rhagoriaeth yn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm	Maen Prawf 2 Rhagoriaeth yn effaith gweithio ar y cyd
Enghreifftiau o arferion gweithio mewn tîm effeithiol, prosesau a/neu ganlyniadau	Adborth a gwerthusiadau myfyrwyr
Tystiolaeth o nodau/pwrpas cyffredin	Data myfyrwyr (dilyniant, cyflawniad, cadw, ymgysylltu ac ati)
Tystiolaeth o arweinyddiaeth gyffredin a phriodol	Data staff (cyfranogiad, ymgysylltu, datblygu gyrfa ac ati)
Tystiolaeth o geisio arbenigedd amrywiol	Adborth/data o waith gyda chyfoedion, mentrau newydd/mentrau mewn lleoliadau newydd, datblygu polisi ac ati.
Tystiolaeth o gyfranogiad tîm, datblygu a datrys gwrthdaro (os yw'n gymwys)	Defnyddio adnoddau'r tîm, dulliau, cyhoeddiadau ac ati.
Tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer aelodau'r tîm	Gweithio gyda phartneriaid/sefydliadau allanol, cyrff proffesiynol eraill, ac ati.
Adolygu/gwerthuso'r prosesau sydd yn eu lle	Cyflawniadau a gydnabuwyd megis gwobrau, achrediaid, cyllid, llwyddiannau, buddsoddiad, lefelau, partneriaeth allanol, ac ati.
Tystiolaeth o effeithiolrwydd gwell dros amser	Data meintiol i ddangos graddfa, cyrhaeddiad ac effaith gwaith y tîm enwebedig.
Tystlythyrau aelodau tîm/rhanddeiliaid	

- + wrth ddewis tystiolaeth briodol, dylai timau ystyried:
  - defnyddio tystiolaeth sy'n ystyrllon ac yn darbwyllo i gefnogi Cais y tîm; canolbwyntio ar ffynonellau o safon ac nid maint ffynonellau gwahanol;
  - cydbwysu'r mathau o dystiolaeth; er enghraifft, cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol lle y bo'n briodol yn ôl cyd-destun y tîm enwebedig. Er ei fod yn ffynhonnell ddefnyddio i'w chynnwys, fe'i argymhellir er mwyn osgoi gorddibynnu ar dystiolaeth.

Y sefydliad sy'n enwebu a'r tîm enwebedig sy'n penderfynu'r hyn a ystyrir yn dystiolaeth briodol o effaith, ond caiff timau eu hannog i sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei gyfleu'n glir o fewn Adran B o'r Cais. Wrth gwrs bydd timau o ddisgyblaethau neu rolau academaidd amrywiol yn arddangos arddulliau cyfathrebu a dadansoddol gwahanol a chaiff hyn ei ystyried yn y broses asesu. Bydd Ceisiadau Tîm yn amrywio'n sylweddol o ran arddull a chyd-destun; nid oes unrhyw arddull neu 'fformiwla' 'disgwyliedig' i'w ddilyn.

### **Cyrhaeddiad, Gwerth ac Effaith**

Bydd adolygwyr yn edrych am dystiolaeth sy'n dangos **cyrhaeddiad, gwerth ac effaith** ymarfer y tîm enwebedig. Dylai timau gadw'r gofyniad hwn mewn cof a'r nod o ddarparu tystiolaeth sy'n dangos cydbwysedd o'r tair nodwedd hyn ar draws y cais.

**Cyrhaeddiad** – Graddfa'r dylanwad. Er y gall cyrhaeddiad 'daearyddol' fod yn bwysig ar gyfer rhai timau enwebedig, mae'n ddefnyddiol ystyried ffyrdd eraill y gall tîm enwebedig ddangos cyrhaeddiad. Gall rhai timau enwebedig ddangos cyrhaeddiad ar lefel adran/cyfadran/sefydliad/cenedlaethol/byd-eang er enghraifft, ond gallai eraill ddarparu tystiolaeth o sut y mae eu hymarfer wedi cyrraedd gwahanol grwpiau o fyfyrwyr, unigolion a/neu sefydliadau (e.e. ôl-raddedigion, myfyrwyr cymudo, myfyrwyr Duon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig, dysgwyr ar-lein ac ati).

**Gwerth** – Y budd a gaiff myfyrwyr a staff (a all fod mewn ffurfiau gwahanol). Gall gwerth gynnwys tystiolaeth ansoddol megis newid yn yr ymagwedd at ddysgu ymysg myfyrwyr neu staff. Er enghraifft, gellir darparu tystiolaeth ynghylch sut y mae'r gwaith a ddisgrifir wedi ychwanegu gwerth at brofiad dysgu'r myfyrwyr neu ymarfer addysgu. Gall gwerth hefyd gyfeirio at ansawdd profiadau gwell ac ystyrllonder ymarferion. Gall rhai timau enwebedig fod yn gweithio mewn lleoliadau lle y ceir elfennau moesegol penodol cadarnhaol i'w hymarfer hefyd.

**Effaith** – Y gwahaniaeth sydd wedi cael ei wneud i bolisi, ymarfer a/neu ganlyniadau myfyrwyr o ganlyniad i weithgaredd. Y ffocws yma yw ar dystiolaeth benodol o newid cadarnhaol yn digwydd. Gall tystiolaeth o effaith fod yn feintiol ac yn ansoddol, ond mae'n bwysig dangos sut y mae'r gweithgareddau a ddisgrifir wedi newid canlyniadau dysgu i fyfyrwyr a/neu arferion addysgu.

### **Gweithio mewn Tîm Cydweithredol v ar y Cyd**

Dylai timau enwebedig geisio dal tystiolaeth o'i dulliau gweithio ar y cyd o dan y ddau faen prawf. Mae gweithio ar y cyd yn gyflwr o ryngddibyniaeth sy'n debygol o fod yn llawer dyfnach na dim ond cydweithio fel aelodau o dîm. Mae ceisiadau llwyddiannus yn debygol o gynnwys agweddau ar ymarfer sy'n mynd y tu hwnt i ddisgrifio sut mae'r tîm yn gweithio



gydag eraill. Ethos GCRhA yw cydnabod gweithio mewn tîm fel elfen bwysig o ymarfer AU llwyddiannus. Dylai timau enwebedig ddisgwyl disgrifio sut y cafodd y tîm ei sefydlu, wedi datblygu a sut y mae'n parhau i weithio i gael effaith effeithiol.

Mae'r graffigyn isod (wedi ei atgynhyrchu gyda chaniatâd John Spencer) yn amlinellu rhai o'r prif wahaniaethau rhwng y ddau gysyniad. Mae nodweddion gweithio ar y cyd a restrir yn y graffigyn hwn yn ddefnyddiol i dimau enwebedig gasglu tystiolaeth effeithiol o'r ffordd hon o weithio.



### **Bodloni Maen Prawf 1: Rhagoriaeth yn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm**

*Tystiolaeth o ragoriaeth yn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig.*

Mae Maen Prawf 1 yn canolbwyntio'n bennaf ar werth a'r ymagwedd at weithio ar y cyd a chynllunio ar gyfer cyrhaeddiad ac effaith. I roi rhai enghreifftiau, gallai Maen Prawf 1 gael ei ddangos trwy ddarparu tystiolaeth o ragoriaeth o ran:

- + bod â chyfres glir o nodau, amcanion a sail resymegol ar gyfer ymagwedd y tîm a sut y mae'r grŵp yn ffurfio tîm ac wedi datblygu fel tîm;
- + dangos ymgysylltiad uniongyrchol myfyrwyr o fewn neu gyda'r tîm;
- + dangos sut y mae'r tîm wedi cyfrannu at flaenoriaethau thematig a sector ehangwch, er enghraifft: asesu ac adborth, cadw staff, cyflogadwyedd, datblygu staff, myfyrwyr fel partneriaid, technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol, cynaliadwyedd, menter ac entrepreneuriaeth, dysgu hyblyg, rhyngwladoli, llesiant a chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;

- + cydweithio ag amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid;
- + corffori ymarferion ar draws rhaglenni, disgyblaethau, campysau neu sefydliadau gwahanol;
- + bod yn hyblyg ac yn greadigol wrth weithio i roi sylw i sefyllfaoedd neu ddigwyddiadau annisgwyl;
- + prosesau yn eu lle ar gyfer mesur effaith neu ganlyniadau gweithio ar y cyd.

### **Bodloni Maen Prawf 2: Rhagoriaeth yn effaith gweithio ar y cyd**

*Tystiolaeth bod y tîm yn cael effaith bendant ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol arferol.*

Mae Maen Prawf 2 yn canolbwyntio ar ddangos *cyrhaeddiad* ac *effaith* gwaith y tîm a *gwerth* gan gynnwys y tu hwnt i'w gyd-destun cychwynnol. I roi rhai enghreifftiau, gallai Maen Prawf 2 gael ei ddangos trwy ddarparu tystiolaeth fel a ganlyn:

- + cyrhaeddiad gwaith y tîm;
- + y gwerth ehangach sydd wedi deillio o weithio fel tîm;
- + effaith cefnogi cydweithwyr a/neu ddylanwadu ar gymorth ar gyfer addysg myfyrwyr;
- + yr effaith ar addysg neu ganlyniadau myfyrwyr;
- + effaith unrhyw ganlyniadau/allbynnau gweithio ar y cyd.

Mae adolygwyr yn 'sgorio' pob un o ddwy ran Adran B ar wahân. Mae Atodiad 4 yn nodi'r penawdau sgorio a ddefnyddir gan yr adolygwyr i roi sgôr (0-5) ar gyfer y dystiolaeth a ddangosir yn erbyn pob un o'r ddau faen prawf (uchafswm sgôr o 10 fesul adolygwr).

## **5.5 Adran C: Rhestr Cyfeiriadau**

Mae'r Cais yn cynnwys adran derfynol (Adran C) lle y dylai timau ddarparu rhestr o unrhyw gyfeiriadau y maent wedi eu defnyddio o fewn y dystiolaeth a ddarparant yn erbyn pob maen prawf dyfarnu. Er enghraifft, efallai fod y tîm yn defnyddio canlyniadau ymchwil perthnasol, ysgoloriaeth ac ymarfer proffesiynol a/neu ymgysylltu â llenyddiaeth sefydledig a chyfrannu ati neu at sylfaen dystiolaeth ei hun ar gyfer addysgu a dysgu.

Ni ddylai timau enwebedig restru eu holl gyhoeddiadau a chyflwyniadau yn unig ond yn hytrach dylent ganolbwyntio ar y rhai sydd wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â'r deunyddiau yn Adran B. Dylai timau enwebedig hefyd fod yn ymwybodol na ddylai'r Rhestr Cyfeiriadau gael ei defnyddio i ychwanegu hyperddolenni at ddeunyddiau ategol pellach oherwydd ni all adolygwyr ddilyn y rhain.

Er nad yw terfyn wedi ei osod ar gyfer nifer y geiriau yn y Rhestr Cyfeiriadau, os oes gan restr tîm enwebedig fwy nag oddeutu 20, neu lai na 2 gyfeiriad, mae'n debygol o fod yn anghyson â cheisiadau llwyddiannus. Ni ddylai'r rhestr gynnwys unrhyw ddyfyniadau sydd heb eu cyfeirio atynt yn uniongyrchol o fewn y dystiolaeth a ddarperir yn Adran B o'r Cais.

Nid yw'r Rhestr Cyfeiriadau yn rhan o'r broses adolygu ac felly ni chaiff ei 'sgorio' gan yr adolygwyr. Pwrpas y rhestr yw cynnig modd i adolygwyr nodi ffynonellau a rhoi

cydnabyddiaeth briodol i awdur sydd wedi ysbrydoli unrhyw feysydd o waith y tîm sydd wedi'u cynnwys fel tystiolaeth yn y Cais.

## 6. Datganiad o Gefnogaeth

Mae Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad yn agwedd hanfodol a hollbwysig o enwebiad GCRhA. Mae'n cymeradwyo'r cais a wnaed gan y tîm enwebedig ac yn fframio cyrhaeddiad, gwerth ac effaith ymarfer y tîm o safbwynt sefydliadol.

Ni ddylai'r Datganiad o Gefnogaeth gael ei weld fel ffynhonnell o dystiolaeth ategol (neu newydd); dylai agweddau craidd o gais y tîm, a'r dystiolaeth ar gyfer yr agweddau hyn, gael eu cynnwys o fewn Adran B o'r Cais. Mae Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad yn ddogfen atodol y bwriadid iddi gymeradwyo'r hyn a honnir o fewn Adran B yn unig. Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth ddilysu'r effaith a dystir gan y tîm, darparu cyd-destun sefydliadol ar gyfer gwaith y tîm a darparu unrhyw wybodaeth ategol a allai gael ei mynegi'n fwy priodol gan Is-ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu'r cyfwerth). Er enghraifft, barn ar bwysigrwydd strategol gwaith y tîm a/neu newid sy'n deillio o ganlyniad i'w waith.

Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth gael ei gwblhau trwy ddefnyddio'r ffurflen lawrlwythiadwy sydd ar gael ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi gan Is-ganghellor/Pennaeth/Llywydd y sefydliad (neu'r cyfwerth).

Argymhellir bod Cais y tîm enwebedig ar gyfer GCRhA yn cael ei ddarllen cyn llunio Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad. Yn arbennig, dylai'r datganiad:

- + cymeradwyo dilysrwydd Cais y tîm enwebedig;
- + darparu'r cyd-destun sefydliadol lle gwelwyd effaith y tîm enwebedig ar addysgu a dysgu ac amlinellu unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i ledaenu ei ymarfer ymhellach;
- + darparu cadarnhad o gefnogaeth sefydliadol ar gyfer y tîm enwebedig, os yw'n llwyddiannus, o ran ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag ennill Gwobr ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu;
- + darparu unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol a allai gael ei mynegi'n fwyaf priodol gan yr Is-ganghellor (neu'r cyfwerth) yn hytrach na'r tîm enwebedig;
- + darparu enw, teitl swydd a llofnod yr Is-ganghellor (neu'r cyfwerth).

Mae croeso i'r Is-ganghellor neu'r cyfwerth enwebu uwch arweinydd (megis Dirprwy neu Ddirprwy Is-ganghellor) i gwblhau'r datganiad ar ei ran (cysylltwch â [cate@advance-he.ac.uk](mailto:cate@advance-he.ac.uk) i gadarnhau hyn).

## 7. Y broses adolygu a dewis

Caiff pob tîm enwebedig ei ystyried gan adolygwyr cyfoedion annibynnol ac allanol yn seiliedig ar yr wybodaeth y mae'r timau enwebedig yn ei chyflwyno yn erbyn dau faen prawf GCRhA yn Adran B o'r Cais. Mae'r Datganiad o Gefnogaeth sefydliadol yn dilysu'r hyn a ddywedir gan y tîm o safbwynt sefydliadol. Nid yw Adran A (Rhannau 1 a 2) ar ddechrau'r

cais, sy'n cynnwys Cyfansoddiad y Tim Craidd a'r Datganiad Cyd-destun yn cael ei adolygu yn erbyn y meini prawf; ei bwrpas yw diffinio cyfansoddiad y tîm a'r cyd-destun ar gyfer gwaith y tîm er mwyn fframio'r dystiolaeth a ddarperir o fewn y ddwy ran yn Adran B o'r Cais yn erbyn y meini prawf dyfarnu.

Daw adolygwyr cyfoedion AU Ymlaen o blith gweithwyr proffesiynol addysgu a dysgu ar draws y sector addysg uwch ac maent yn annibynnol ar AU Ymlaen. Mae'r adolygwyr i gyd yn brofiadol ym maes asesu yn seiliedig ar feini prawf, byddant wedi cwblhau'n llwyddiannus ymarfer cymedrol ac wedi cael hyfforddiant cyn gweithredu fel adolygwr GCRhA. Bydd adolygwyr yn cyflawni eu rôl mewn modd cyfrinachol ac ni chaiff eu hunaniaeth ei rhannu ag aelodau'r tîm, sefydliadau sy'n enwebu neu gyda Phanel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn ystod y broses dewis a dyfarnu.

Gofynnir i adolygwyr sgorio (0-5) pob rhan o Adran B o Gais y tîm yn erbyn dau faen prawf dyfarnu GCRhA yn eu tro, gan sicrhau bod pob maen prawf yn cael yr un pwysiad yn y broses asesu. Mae terfynau geiriau caeth yn cael eu gosod ar gyfer y Cais a gofynnir i adolygwyr beidio ag ystyried unrhyw ran o Adran B o'r Cais sy'n fwy nag uchafswm nifer y geiriau a ganiateir, sef 3,500 o eiriau. Defnyddir y penawdau sgorio (Atodiad 4) gan yr adolygwyr i roi sgorau.

Yn 2022, bydd AU Ymlaen yn dyrannu ceisiadau'r enwebeion i dri adolygwr, gan osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Mae adolygwyr yn sgorio'r ddau faen prawf 0-5. Defnyddir cyfres o algorithmau er mwyn gwahaniaethu sgorau a chreu gradd derfynol. Os yw sgorau un adolygwr wedi eu diffinio fel rhai sy'n anghyson â sgorau'r ddau adolygwr arall, defnyddir pedwerydd adolygwr a'r tair sgôr agosaf i gyfrifo'r radd.

Mae AU Ymlaen yn goruchwyllo'r gwaith o safoni'r asesiad, ac mae'n monitro ac yn prosesu holl ddata'r tîm enwebedig er mwyn adrodd i Banel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU. Mae'r dull a ddefnyddir yn sicrhau nad yw'r tîm enwebedig o dan anfantais oherwydd anghysondebau wrth farcio a bod pob tîm yn cael ei drin yn deg ac yn gyson. Mae Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn adolygu data cyfle cyfartal, y graddau a sylwadau'r adolygwyr ac yn gwneud argymhellion ar gyfer enillwyr gwobrau, sy'n cael eu cadarnhau wedi hynny gan Grŵp Prif Weithredwyr AU Ymlaen.

Mae AU Ymlaen wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Wrth brosesu enwebiadau, mae'n sicrhau nad yw unrhyw dîm enwebedig yn cael ei drin yn llai ffafriol nag eraill ar sail rhyw, hil, cenedligrwydd, tras ethnig neu genedlaethol, credoau crefyddol neu wleidyddol, anabledd, statws priodasol, cefndir cymdeithasol, amgylchiadau teuluol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, euogfarnau wedi eu disbyddu, oedran, neu am unrhyw reswm anghyfreithlon arall.

## 8. Digwyddiadau cymorth Cymdeithas y Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol a'r Rhwydwaith Gwobrau ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu

Yn ogystal â'r canllawiau a gyflwynir o fewn y ddogfen hon, mae aelodau o Gymdeithas y Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol ar y cyd ag aelodau o Rwydwaith GCRhA (enillwyr blaenorol rhwydwaith GCRhA) yn cynnal cyfres o weithdai cymorth ar-lein ar gyfer timau

sy'n datblygu enwebeion. Mae mynychwyr blaenorol wedi dweud bod y digwyddiadau hyn wedi rhoi cymorth gwerthfawr gydag ysgrifennu Cais y tîm. Mae'r digwyddiadau cymorth hyn yn rhad ac am ddim i'w mynychu. Caiff dolenni archebu lle eu hanfon at Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu ac maent yn gyfrifol am hyrwyddo'r digwyddiadau o fewn y sefydliadau hyn. Dylai sefydliadau sydd am newid y manylion cysylltu ar gyfer eu Harweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu ebostio'r tîm yn [cate@advance-he.ac.uk](mailto:cate@advance-he.ac.uk).

## 9. Canlyniadau a chyhoedduswydd

Caiff arweinwyr tîm wybod canlyniad eu henwebiad trwy'r ebost yn ystod yr wythnos yn dechrau ddydd Llun 11 Gorffennaf 2022. Bydd Is-ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu'r cyfwerth) y sefydliad hefyd yn cael gwybod y canlyniad ar y dyddiad hwn. Bydd cyhoeddi enwau enillwyr GCRhA 2022 wedi ei wahardd tan ddydd lau 4 Awst 2022. Un o amodau cystadleuaeth GCRhA yw nad yw timau yn rhannu newyddion am eu llwyddiant cyn y dyddiad hwnnw er mwyn sicrhau'r cyhoedduswydd mwyaf posibl. Gallai gweithredu'n groes i'r gofyniad hwn arwain at dynnu'r wobr yn ôl. Caiff enwau enillwyr GCRhA 2022 eu cyhoeddi'n swyddogol ar ddydd lau 4 Awst 2022 ar wefan AU Ymlaen ac mewn datganiad i'r wasg. Defnyddir yr wybodaeth sydd yn y Ffurflen Proffil Enwebeion a'r ffotograffau a gyflwynir gyda'r enwebiad mewn deunyddiau cyhoedduswydd.

Mae croeso i sefydliadau gyhoeddi a dathlu eu henillwyr o 08:00 (BST) ar ddydd lau 4 Awst.

Mae tair delwedd eglur iawn 1Mb a 300dpi (o leiaf) o'r tîm yn rhan o'r enwebiad a dylid eu lanlwytho i'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir i'w defnyddio ar wefan AU Ymlaen ac yn llyfryn y seremoni. Gellir cael yr ansawdd delwedd yma ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar a chamerau. Dylai'r tri ffotograff fod yn wahanol ac mewn fformat tirlun. Wrth gyflwyno delweddau i AU Ymlaen, mae aelodau tîm yn rhoi eu caniatâd i AU Ymlaen ddefnyddio'r delweddau hyn at ddibenion hyrwyddo neu gyhoedduswydd. Mae'r aelodau tîm hefyd yn cadarnhau mai nhw yw perchennog unrhyw hawliau eiddo deallusol neu fod trwydded briodol ganddynt i rannau'r delweddau hyn ag AU Ymlaen ac i AU Ymlaen ddefnyddio'r delweddau a ddarperir at y diben hwn.

Yn dilyn cyhoeddi canlyniad GCRhA 2022, bydd AU Ymlaen yn rhoi adborth ysgrifenedig unigol i'r holl dimau enwebedig erbyn diwedd Awst 2022. Mae'r amserlen hon yn ofynnol oherwydd y nifer fawr o geisiadau GCRhA a dderbynnir, a'r gwaith sylweddol sy'n cael ei wneud i wirio a choladu'r adborth ysgrifenedig gan bob un o'r tri adolygwyr ar gyfer y ddau faen prawf GCRhA. Bwriedir i'r adborth ansoddol hwn gan yr adolygwyr ategu cynlluniau ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Nid yw sgorau adolygwyr a graddau enwebu yn cael eu rhyddhau. Anogir timau enwebedig i rannu eu hadborth adolygu â'u Harweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu er mwyn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer llwyddiant sefydliadol yn rowndiau GCRhA yn y dyfodol.

Mae GCRhA yn gystadleuaeth ac felly mae penderfyniad y Panel yn derfynol ac ni ellir gwneud unrhyw apeliadau yn erbyn ei benderfyniad. Dylai proses gwyno AU Ymlaen gael ei defnyddio i roi sylw i unrhyw bryderon yn ymwneud â thriniaeth deg wrth weinyddu'r enwebiadau. Yn y lle cyntaf, os yw unrhyw gwestiynau neu bryderon yn codi, e-bostiwch [cate@advance-he.ac.uk](mailto:cate@advance-he.ac.uk).

## 10. Y seremoni wobrwyo a'r digwyddiad briffio

Caiff enillwyr GCRhA 2022 eu gwahodd i fynychu cinio dathlu sydd i'w gynnal yn hydref 2022 (dyddiad i'w gwblhau) ac estynnir gwahoddiad i ddau aelod o'r tîm, a'r Is-ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu'r cyfwerth). Gall tocynnau ychwanegol fod ar gael i'w prynu. Yn ogystal gwahoddir enillwyr GCRhA 2022 i fynychu digwyddiad rhwydweithio ar brynhawn y seremoni, a fydd yn rhoi cyfle i rwydweithio ag enillwyr gwobrau eraill.



## Atodiad 1: Gofynion enwebu ar gyfer timau ac Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu

✓	Tasg
	<p><b>Lansio dogfennau enwebu ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen</b> O 4 Hydref 2022 ymlaen, bydd yr Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu a'i ddirprwy yn derbyn ebost gan <a href="mailto:ntfs@advance-he.ac.uk">ntfs@advance-he.ac.uk</a> sy'n cynnwys Enw Defnyddiwr a Chyfrinair Amgylchedd Dysgu Rhithwir i gael mynediad at Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Cysylltwch â <a href="mailto:ntfs@advance-he.ac.uk">ntfs@advance-he.ac.uk</a> os nad yw hwn wedi cael ei dderbyn neu os yw'r newid Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu yn newid.</p>
	<p><b>Rhestr wirio Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (i'w lawrlwytho o'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir. I'w chyflwyno fel ffeil pdf)</b> Dylai'r Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu gwblhau'r rhestr wirio ar gyfer y Tim enwebedig a'i llofnodi i gadarnhau bod yr holl ddogfennau a ffurflenni wedi cael eu gwirio a/neu eu cyflwyno.</p>
	<p><b>Cais (i'w lawrlwytho o'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir. I'w gyflwyno fel ffeil Word)</b> Dylai'r tîm enwebedig ei ysgrifennu a'r arweinydd tîm ei lofnodi yn unig, i'w gwblhau ar y pro fforma lawrlwythiadwy a'i gyflwyno gan yr Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu.</p>
	<p><b>Datganiad o Gefnogaeth (i'w lawrlwytho o'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir. I'w chyflwyno fel ffeil pdf)</b> Dylai Is-ganghellor/Pennaeth/Llywydd y sefydliad (neu'r cyfwerth) ei ysgrifennu a'i lofnodi yn seiliedig ar Gais y tîm enwebedig, a dylai'r Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu ei gyflwyno.</p>
	<p><b>Ffurflen Proffil Enwebeion (Arolygon Ar-lein)</b> Dylai'r arweinydd tîm ei chwblhau gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein mewn <a href="#">Arolygon Ar-lein</a>.</p>
	<p><b>Ffotograffau</b> Dylai tair delwedd eglur iawn 1Mb a 300dpi (o leiaf) o'r enwebai gael eu lanlwytho i'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir i'w defnyddio ar wefan AU Ymlaen ac yn llyfryn y seremoni (ansawdd delwedd ar gael ar y rhan fwyaf o gamerâu a ffonau clyfar). Dylai'r tri ffotograff fod yn wahanol ac mewn fformat tirlun.</p>
	<p><b>Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal (ar-lein, <a href="#">trwy'r ddolen hon</a>)</b> Rhaid i Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal ar-lein gael ei gwblhau gan <u>bob</u> aelod o'r tîm. Caiff y data arolwg eu defnyddio'n ddiennw. Dylai'r Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu gadarnhau bod pob aelod o'r tîm wedi cwblhau arolwg.</p>
	<p><b>Cyflwyno</b> Dylai'r holl ddogfennaeth enwebu gael ei lanlwytho trwy <a href="#">Amgylchedd Dysgu Rhithwir</a> AU Ymlaen erbyn <b>12:00 (GMT) ar ddydd Mercher 16 Mawrth 2022</b> gan yr Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu.</p>



<b>Maen Prawf 2: Rhagoriaeth yn effaith gweithio ar y cyd</b>	
Tystiolaeth bod y tîm yn cael effaith bendant ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol arferol.	
<b>Cyfanswm nifer y geiriau ar gyfer Adran B (uchafswm 3500 o eiriau)</b>	<i>Rhowch nifer y geiriau ar gyfer Adran B yma</i>
<b>Adran C: Rhestr Cyfeiriadau (heb ei sgorio gan yr adolygwyr)</b>	
<b>Llofnod* yr Arweinydd Tîm: (*llofnodion electronig yn dderbyniol)</b>	
<b>Dyddiad:</b>	
Drwy lofnodi'r ddogfen hon cadarnhaf fel a ganlyn:	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaith tîm enwebedig GCRhA yn unig yw hwn</li> <li>• Rwyf wedi darllen, yn deall ac yn cytuno â datganiad Preifatrwydd AU Ymlaen</li> </ul>	

## Atodiad 3: Datganiad o Gefnogaeth

Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth hwn gael ei gwblhau a'i lofnodi gan Is-ganghellor/Pennaeth/Llywydd y sefydliad (neu'r cyfwerth). Mae'n bwysig bod Cais y tîm yn cael ei ddarllen cyn llunio'r datganiad hwn.

<b>Enw:</b>		
<b>Swydd:</b>		
<b>Sefydliad:</b>		
<b>Cyfeiriad Cyswllt:</b>		
	Cod post:	
<b>Rhif ffôn gwaith:</b>		
<b>Ebost:</b>		
<b>Enw tîm enwebedig GCRhA:</b>		
<p><b>Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth hwn:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ cymeradwyo dilysrwydd cais y tîm enwebedig;</li> <li>○ darparu cyd-destun sefydliadol lle gwelwyd effaith y tîm enwebedig ar addysgu a dysgu;</li> <li>○ darparu cadarnhad o gefnogaeth ar gyfer y tîm enwebedig, os yw'n llwyddiannus, o ran ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag ennill Gwobr ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu;</li> <li>○ darparu unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol a allai gael ei mynegi'n fwyaf priodol gan yr Is-ganghellor/Pennaeth/Llywydd (neu'r cyfwerth) yn hytrach na'r tîm enwebedig.</li> </ul>		
<b>Nifer y geiriau (uchafswm 1000 o eiriau)</b>	<i>Rhowch nifer y geiriau yma</i>	
<b>Llofnod* : (*llofnodion electronig yn dderbyniol)</b>		
<b>Dyddiad:</b>		
<p>Drwy lofnodi'r ddogfen hon cadarnhaf fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● Rwyf wedi darllen, deall ac yn cytuno â Datganiad Preifatrwydd AU Ymlaen</li> <li>● Roedd y broses enwebu fewnol a arweiniodd at ddewis y tîm enwebedig GCRhA a enwir yn deg, yn dryloyw, ac wedi dilyn ein polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sefydliadol (neu'r cyfwerth).</li> <li>● Gall AU Ymlaen ddefnyddio'r ffurflen hon i gadarnhau y bydd y sefydliad yn cefnogi'n llawn y tîm enwebedig wrth gynnal unrhyw rai a'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â rôl tîm buddugol GCRhA.</li> </ul>		

## Atodiad 4: Penawdau Sgorio GCRhA 2022

Bydd adolygwyr yn defnyddio'r penawdau sgorio isod i 'sgorio' pob un o ddwy ran Adran B Cais y tîm enwebedig yn erbyn pob un o ddau faen prawf dyfarnu GCRhA; (hynny yw, uchafswm sgôr cyffredinol o 10 gan bob un o'r tri adolygwr).

Proffil sgorio cyffredinol	Mae'r tîm enwebedig yn darparu tystiolaeth <b>ragorol</b> i ddangos ei effaith ar addysgu a dysgu.	Mae'r tîm enwebedig yn darparu tystiolaeth <b>dda iawn</b> i ddangos ei effaith ar addysgu a dysgu.	Mae'r tîm enwebedig yn darparu tystiolaeth <b>dda</b> i ddangos ei effaith ar addysgu a dysgu.	Mae'r tîm enwebedig yn darparu tystiolaeth <b>foddhaol</b> i ddangos ei effaith ar addysgu a dysgu.	Mae'r tîm enwebedig yn darparu tystiolaeth <b>gyfyngedig</b> i ddangos ei effaith ar addysgu a dysgu.	Mae'r tîm enwebedig yn darparu tystiolaeth <b>wael/dim tystiolaeth</b> i ddangos ei effaith ar addysgu a dysgu.
Sgorau	<b>5 pwynt</b>	<b>4 pwynt</b>	<b>3 phwynt</b>	<b>2 bwynt</b>	<b>1 pwynt</b>	<b>0 pwynt</b>
<b>Maen Prawf 1:</b> <b>Rhagoriaeth yn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm</b>	tystiolaeth <b>ragorol</b> o ragoriaeth yn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun	tystiolaeth <b>dda iawn</b> o ragoriaeth yn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun	tystiolaeth <b>dda</b> o ragoriaeth yn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun	tystiolaeth <b>foddhaol</b> o ragoriaeth yn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun	tystiolaeth <b>gyfyngedig</b> o ragoriaeth yn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun	tystiolaeth <b>wan/dim tystiolaeth</b> yn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun
<b>Maen Prawf 2:</b> <b>Rhagoriaeth yn effaith gweithio ar y cyd</b>	tystiolaeth <b>ragorol</b> sy'n dangos yn llawn bod y tîm wedi cael effaith bendant addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.	tystiolaeth <b>dda iawn</b> sy'n dangos yn eglur bod y tîm wedi cael effaith bendant addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.	tystiolaeth <b>dda</b> sy'n dangos bod y tîm wedi cael effaith bendant addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.	tystiolaeth <b>foddhaol</b> sy'n dangos yn rhannol bod y tîm wedi cael effaith bendant addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.	tystiolaeth <b>gyfyngedig</b> sy'n dangos ar adegau prin bod y tîm wedi cael effaith bendant addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.	tystiolaeth <b>wan/dim tystiolaeth</b> o ragoriaeth, ac nid yw'n dangos bod y tîm wedi cael effaith bendant addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol.

## Atodiad 5: Datganiad Preifatrwydd GCRhA 2022

### Atodlen 1: Diogelu Data

Mae'r atodlen hon yn disgrifio sut y mae AU Ymlaen yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi a'ch tîm pan fyddwch yn anfon eich enwebiad atom. At ddiben deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018, AU Ymlaen yw'r "rheolydd data". Mae hyn yn golygu ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn dal ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n ofynnol i ni o dan ddeddfwriaeth diogelu data i roi gwybod i chi pa wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr atodlen hon.

Mae AU Ymlaen yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi ei gorffori yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif cwmni 4931031 a'i gofrestru fel elusen yn Lloegr o dan y rhif elusen 1101607 ac yn yr Alban o dan y rhif elusen SC043946. Ein cyfeiriad swyddfa gofrestredig yw: Innovation Way, York Science Park, Caerefrog YO10 5BR. Gallwch gysylltu â ni hefyd trwy'r ebost yn [data.protection@advance-he.ac.uk](mailto:data.protection@advance-he.ac.uk) neu drwy ffonio 01904 717500.

### Sut y byddwn yn diogelu eich gwybodaeth bersonol

Mae AU Ymlaen wedi ymrwmo i ddal yr wybodaeth bersonol a rowch i ni yn ddiogel. Os yw gwybodaeth bersonol yn cael ei dal yn electronig, caiff ei dal ar system gyfrifiadurol a berchenogir ac a reolir gan AU Ymlaen neu drydydd parti a benodir gan AU Ymlaen.

Er mwyn gallu gweinyddu'r cynllun yn effeithiol, mae AU Ymlaen yn storio'r manylion a roddir ar y ffurflen hon, a'r dogfennau enwebu, ar bapur ac mewn fformat electronig. Caiff copïau papur eu cadw'n lleol gan AU Ymlaen yn ei swyddfeydd neu'n ddiogel gan ein staff, contractwyr neu mewn cyfleusterau storio oddi ar y safle. Weithiau byddwn yn gwneud copïau electronig o ddogfennau papur neu'n teipio gwybodaeth o'r copïau hyn. Yna caiff y dogfennau neu'r wybodaeth eu storio ar ein system gyfrifiadurol.

Gweinyddir proses enwebu trwy system Amgylchedd Dysgu Rhithwir AU Ymlaen. Caiff yr holl wybodaeth a rowch i ni ei throsglwyddo a'i storio ar ein gweinyddwyr diogel neu weinyddwyr trydydd parti arall y gallwn ei benodi o bryd i'w gilydd i letya'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir a/neu storio gwybodaeth.

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bo angen yn unig i ddiwallu'r dibenion y cafodd ei chasglu ar eu cyfer (gweler "Ar gyfer beth ydym yn defnyddio eich gwybodaeth" isod)

**Enillwyr llwyddiannus GCRhA:** Bydd AU Ymlaen yn storio ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol am gyfnod y Wobr. Er mwyn penderfynu ar y cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg posibl o niwed trwy'r defnydd diawdurdod neu ddatgelu eich data personol, y dibenion rydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol cymwys. Bydd AU Ymlaen yn sicrhau bod ein cyflenwyr a thrydydd partion o ddewis y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw yn unol â'r atodlen hon, yn dileu eich gwybodaeth bersonol pan na fydd rheswm dros ei chadw mwyach.



**Timau enwebedig eraill:** Er mwyn penderfynu ar y cyfnod cadw priodol ar gyfer data personol, rydym yn ystyried swm, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg posibl o niwed trwy'r defnydd diawdurdod neu ddatgelu eich data personol, y dibenion rydym yn prosesu eich data personol ar eu cyfer ac a allwn gyflawni'r dibenion hynny trwy ddulliau eraill, a'r gofynion cyfreithiol cymwys. Bydd AU Ymlaen yn sicrhau bod ein cyflenwyr a thrydydd partiön o ddewis y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw yn unol â'r atodlen hon, yn dileu eich gwybodaeth bersonol pan na fydd rheswm dros ei chadw mwyach.

### Ar gyfer beth ydym yn defnyddio'r wybodaeth sydd yn y ffurflen hon:

Mae'r sefyllfaoedd pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol wedi eu rhestru isod:

- + Cyfathrebu â chi am eich enwebiad.
- + Dibenion gweinyddol gan gynnwys sefydlu, diwygio, cau neu adnewyddu cyfrifon defnyddwyr ar gyfer yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir.
- + Gwerthuso a dadansoddi'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ffurflenni.
- + Delio ag unrhyw ymholiadau neu gwynion mewn perthynas â'ch cais ar gyfer y Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol.
- + Llunio adroddiadau ar gyfer defnydd mewnol gennym ni, ein staff a Phanel Cynghori Gwobrwyon Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU.
- + Ein sail gyfreithlon ar gyfer y gweithgareddau hyn yw'r rheidrwydd i gyflawni ein contract gyda chi (oherwydd ymrwymwn i adolygu a phrosesu eich enwebiad).
- + Penodi darparwyr gwasanaeth trydydd parti i ddefnyddio eich data personol at ein dibenion (nid dibenion y trydydd parti) ar ein rhan o dan ein cyfarwyddyd megis gwasanaethau cymorth ar gyfer defnyddio'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir, i adolygwyr cyfoedion allanol yn ogystal ag aelodau o'r Panel fel rhan o'r broses asesu, i drydydd partiön sy'n cynorthwyo AU Ymlaen i lywio prosesau adolygu a gweithgareddau gwerthuso yn y dyfodol.
- + Cadw mewn cysylltiad â chi i anfon manylion atoch am wybodaeth gwasanaeth, ein cynhyrchion a gwasanaethau, arolygon, cylchlythyron, digwyddiadau, cyrsiau, seminarau a gweithdai.
- + Ein sail gyfreithlon ar gyfer y gweithgareddau hyn yw cyflawni ein buddion cyfreithlon i ymgysylltu â chymorth allanol i gyflenwi'r cynllun GCRhA a chodi ein proffil o fewn y gymuned addysgu.
- + Lle yr hoffem ddefnyddio data at ddibenion eraill, gallwn wneud eich gwybodaeth yn ddiennw er mwyn iddi beidio â chael ei chysylltu â chi. Yn yr achos hwnnw, bydd yn peidio â bod yn ddata personol a gallwn ddefnyddio'r data diennw ar gyfer unrhyw ddiben.

## Rhannu eich gwybodaeth

Gallwn drosglwyddo eich gwybodaeth i'r trydydd partion canlynol a/neu dimau mewnol neu adrannau AU Ymlaen ac ar gyfer y dibenion canlynol:

- + Eich cyflogwr at ddiben rhwydweithio a datblygiad proffesiynol.
- + Ein cyflenwyr sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan megis darparwyr TG sy'n berchen ar, yn rheoli neu'n darparu cymorth ar gyfer ein cyfrifiaduron neu systemau a ddefnyddiwn a'n cyflenwyr sy'n darparu'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir neu feddalwedd arall.
- + Ein staff neu unigolion a benodwn i adolygu eich enwebiad a gwybodaeth arall a rowch yn eich dogfennaeth enwebu. Sefydliadau partner y gallwn eu defnyddio i gyflenwi'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol a'r seremoni wobrwyo.
- + Sefydliadau partner y gallwn eu defnyddio i gyflenwi'r Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol a'r seremoni wobrwyo.

Weithiau gall fod rhwymedigaeth arnom i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol o dan y gyfraith megis gan reoleiddiwr sydd â'r pŵer priodol, neu orchymyn llys. Yn ogystal, gall gwybodaeth a gedwir gan neu ar gyfer cyrff cyhoeddus fod yn destun ceisiadau rhyddid gwybodaeth.

## Eich dyletswydd i roi gwybod i ni am newidiadau:

Mae'n bwysig bod yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os yw'ch gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas weithio â ni.

## Eich hawliau mewn perthynas â gwybodaeth bersonol:

O dan rai amgylchiadau, o dan y gyfraith mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- + Gwneud cais i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (a elwir yn gyffredin yn "gais mynediad pwnc data"). Mae hyn yn eich galluogi i gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- + Cais i gywiro'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i gael unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch wedi ei chywiro.
- + Cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu symud ymaith wybodaeth bersonol pan nad oes unrhyw reswm i ni barhau i'w phrosesu. Mae gennych yr hawl hefyd i ofyn i ni ddileu neu symud ymaith eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch wedi arfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (gweler isod).
- + Gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol os ydym yn dibynnu ar fudd cyfreithlon (neu fudd trydydd parti) ac mae rhywbeth am eich sefyllfa arbennig chi sy'n golygu eich bod am wrthwynebu prosesu ar y sail hon.

- + Cais i gyfyngu prosesu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ohirio prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, er enghraifft, os ydych am i ni sefydlu ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- + Cais i drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os ydych am adolygu, dilysu, cywiro neu wneud cais i ddileu eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu eich data personol, neu wneud cais i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â'r Tîm Gwobrwyon Rhagoriaeth mewn Addysgu trwy lythyr.

### Dim ffi yn ofynnol fel arfer

Ni fydd rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol (neu arfer unrhyw un o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, gallwn godi ffi resymol os yw'ch cais i gael mynediad yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Fel arall, gallwn wrthod cydymffurfio â'r cais mewn amgylchiadau o'r fath.

### Beth allai fod ei angen arnom gennych chi

Efallai y bydd angen i ni wneud cais am wybodaeth benodol gennych chi i'n helpu i gadarnhau eich hunaniaeth a sicrhau eich hawl i gael mynediad i'r wybodaeth (neu arfer unrhyw un o'ch hawliau eraill). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau nad yw'r wybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i unrhyw un sydd heb unrhyw hawl i'w chael.

Mae hawl gennych gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth (<http://www.ico.gov.uk/>) os oes unrhyw bryderon gennych mewn perthynas â'r modd y mae AU Ymlaen wedi trin eich gwybodaeth bersonol.

## Cysylltu â ni

+44 (0) 3300 416201

[cate@advance-he.ac.uk](mailto:cate@advance-he.ac.uk)

[www.advance-he.ac.uk](http://www.advance-he.ac.uk)

 in f

@AdvanceHE

© 2022 AU Ymlaen. Cedwir pob hawl.

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn y cyhoeddiad hwn yn safbwyntiau'r awdur ac nid o reidrwydd safbwyntiau AU Ymlaen. Ni ellir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw gyfrwng, electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio, neu unrhyw system storio ac adfer heb ganiatâd ysgrifenedig y perchennog hawlfraint. Fel rheol rhoddir caniatâd o'r fath ar gyfer dibenion addysgol anfasnachol ar yr amod y rhoddir cydnabyddiaeth.

I wneud copiâu o'r adroddiad hwn mewn print bras neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Tîm Marchnata a Chyfathrebu yn AU Ymlaen: +44 (0) 3300 416201 neu [cate@advance-he.ac.uk](mailto:cate@advance-he.ac.uk)

Mae AU Ymlaen yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi ei gorffori yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif cwmni 4931031 a'i gofrestru fel elusen yn Lloegr o dan y rhif elusen 1101607 ac yn yr Alban o dan y rhif elusen SC043946. Ni ddylid defnyddio geiriau a logo AU Ymlaen heb ein caniatâd. Rhif cofrestredig TAW GB 152 1219 50.